

Arolygiad o Bractis Cyffredinol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Practis Meddygol Arwystli, Bwrdd
Iechyd Addysgu Powys

Dyddiad arolygu: 18 Mehefin
2019

Dyddiad cyhoeddi: 19 Medi 2019

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ**

Neu

**Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: hiw@gov.wales
Gwefan: www.agic.org.uk**

Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'n harolygiad	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym.....	7
	Ansawdd profiad y claf	9
	Darparu gofal diogel ac effeithiol	16
	Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth.....	26
4.	Beth nesaf?	29
5.	Sut rydym yn arolygu practisau meddygon teulu.....	30
	Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad	31
	Atodiad B – Cynllun gwella uniongyrchol.....	32
	Atodiad C – Cynllun gwella.....	35

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwneud yn siŵr bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal iechyd o ansawdd da

Ein gwerthoedd

Rydym yn rhoi cleifion wrth wraidd yr hyn a wnawn. Rydym yn:

- Annibynnol
- Gwrthrychol
- Gofalgar
- Cydweithredol
- Awdurdodol

Ein blaenoriaethau

Drwy ein gwaith, ein nod yw:

Rhoi sicrwydd:

Cynnig barn annibynnol ar ansawdd y gofal

Hybu gwelliant:

Annog gwelliant drwy lunio adroddiadau a rhannu arfer da

Dylanwadu ar bolisi a safonau:

Defnyddio'r hyn rydym yn ei ganfod i dylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer

1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Bractis Meddygol Arwystli ym Meddygfa Llanidloes, Mount Lane, Llanidloes, Powys, SY18 6EZ, sy'n rhan o Fwrdd Iechyd Addysgu Powys ar 18 Mehefin 2019.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau o reolwyr arolygu AGIC gydag un ohonynt yn arwain yr arolygiad, adolygwyr cymheiriaid meddygon teulu a rheolwyr practis ac adolygwr lleyg.

Ystyriodd AGIC i ba raddau y mae'r gwasanaeth yn cyrraedd y Safonau Iechyd a Gofal (2015).

Ceir rhagor o fanylion am y ffordd rydym yn cynnal arolygiadau o feddygon teulu yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

2. Crynodeb o'n harolygiad

Yn gyffredinol, gwelsom dystiolaeth bod Practis Meddygol Arwystli yn darparu gofal diogel ac effeithiol.

Roedd gan y practis dîm sefydledig yn gweithio mewn awyrgylch dymunol a chyfeillgar, ac roedd pwyslais clir ar roi profiad cadarnhaol i'r cleifion.

Gwelsom nifer bach o feysydd lle y gellid gwneud gwelliannau.

Nodwyd gennym fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Amgylchedd glân a thaclus
- Amgylchedd cefnogol, lle mae'r tîm yn cydweithio'n dda
- Mae'r meddygon teulu'n gyfrifol am ddiweddarau'r system glinigol gydag unrhyw newidiadau sydd eu hangen o ran meddyginiaeth
- Roedd y cleifion yn gwbl ymwybodol o'r rhesymau pam roeddent yn cymryd meddyginiaeth a ragnodwyd
- Roedd y cleifion yn cael eu trin ag urddas a pharch.

Argymhellwn y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Mwy o daflenni hybu iechyd
- Gwella proses adborth y cleifion drwy roi gwybod i'r cleifion am ganlyniadau eu hadborth
- Sicrhau bod pob aelod o'r staff yn cwblhau hyfforddiant i'r lefelau gofynnol
- Mae angen rhoi rhaglen o archwiliadau clinigol ac ansawdd ar waith er mwyn gwella'r gwasanaeth a gynigir yn gyson
- Gwybodaeth am y staff i'w diweddarau a'i chwblhau.

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Cefndir y gwasanaeth

Ar hyn o bryd, mae Practis Meddygol Arwystli (y practis) yn darparu gwasanaethau i tua 8,500 o gleifion yn yr ardal wledig at ei gilydd o gwmpas Llanidloes. Mae'r practis yn rhan o'r gwasanaethau meddygon teulu a ddarperir yn yr ardal a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Addysgu Powys.

Mae'r practis yn cyflogi tîm sy'n cynnwys:

- Pedwar meddyg, y mae pob un ohonynt yn bartneriaid yn y practis
- Un rheolwr practis
- 12 aelod o staff y practis, gan gynnwys un rheolwr gwasanaethau cleifion, saith gweinyddwr practis, dau weinyddwr Technoleg Gwybodaeth (TG), un derbynnnydd a chlerc nyrsio
- Chwe nyrs practis, gan gynnwys un brif nyrs, sydd ar gael i roi cyngor, brechiadau, rhwymynnau, profion ceg y groth a chwistrellu clustiau
- Mae tri Chynorthwydd Gofal Iechyd sy'n ymgymryd â thriniaethau megis fflebotomi (tynnu gwaed), cynnal profion dadansoddi wrin, monitro pwysedd gwaed a chofnodi canlyniadau electrocardiograff.
- Dau gydymaith meddygol. Gweithiwr gofal iechyd proffesiynol yw cydymaith meddygol sy'n gweithio yn unol â'r model meddygol, er nad yw'n feddyg. Bydd ganddo'r agweddau, y sgiliau a'r sylfaen wybodaeth i ddarparu gofal a thriniaeth gyfannol fel rhan o'r tîm meddygol cyffredinol a/neu'r tîm ymarfer cyffredinol o dan lefelau diffiniedig o oruchwyliaeth.

Mae'r practis yn darparu amrywiaeth o wasanaethau, gan gynnwys:

- Sgrinio serfigol
- Clinig Clefyd Cronig y Galon
- Clinig cynllunio teulu
- Clinig Clefyd Rhwystrol Cronig yr Ysgyfaint (clefyd yr ysgyfaint) a Chlinigau Asthma
- Clinig Diabetes

- Clinig Pwysedd Gwaed Uchel
- Arolygu Iechyd Plant
- Imiwneiddio Plant
- Cyngor ar imiwneiddio a brechu cyn teithio
- Archwiliadau Meddygol cyn cyflogi neu at ddibenion yswiriant
- Mân lawdriniaethau
- Clinig Cofrestru newydd
- Clinig Retinopathi¹
- Clinigau Dynion Iach a Merched Iach
- Cwnselwyr/Nyrsys Seiciatrig Cymunedol.

Mae gan y practis feddygfa gangen yng Nghaersws, na chafodd ei hadolygu yn ystod yr arolygiad hwn.

¹ clefyd y retina sy'n arwain at nam ar y golwg neu golli golwg

Ansawdd profiad y claf

Cawsom sgwrs â'r cleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (lle'r oedd hynny'n briodol) er mwyn sicrhau bod safbwynt y claf yn ganolog i'n dull o arolygu.

Dywedodd y cleifion y gwnaethom siarad â nhw wrthym eu bod yn cael eu trin ag urddas a pharch gan dîm y practis, a gwelsom enghreiffiau o ryngweithio cadarnhaol rhwng y staff a'r cleifion. Roedd y practis yn rhoi pwyslais ar gynnig profiad cadarnhaol i'r cleifion.

Roedd amrywiaeth o daflenni gwybodaeth i gleifion yn cael eu harddangos yn y practis, er mwyn i'r cleifion eu cadw, yn ymwneud â chyflyrau amrywiol. Fodd bynnag, roedd angen gwneud rhai gwelliannau o ran sicrhau bod taflenni hybu iechyd ar gael a rhoi gwybod i'r cleifion am ganlyniadau eu hadborth.

Cyn ein harolygiad, gwahoddwyd y practis i ddsbarthu holiaduron AGIC i gleifion er mwyn cael eu barn ar y gwasanaeth a ddarperir yn y practis. Ar ddiwrnod yr arolygiad, gwnaethom siarad â chleifion hefyd er mwyn cael gwybod am eu profiadau yn y practis.

Derbyniwyd cyfanswm o 35 o holiaduron wedi'u cwblhau. Roedd y mwyafrif o'r cleifion a gwblhaodd holiadur yn gleifion hirdymor yn y practis (wedi bod yn glaf ers dros ddwy flynedd).

Yn yr holiadur gofynnwyd i'r cleifion sgorio'r gwasanaeth a ddarperir gan y practis meddygon teulu hwn. Cafwyd ymatebion cadarnhaol; dywedodd y mwyafrif o'r cleifion fod y gwasanaeth yn ardderchog. Ymhlith y sylwadau a gafwyd gan gleifion yn yr holiaduron roedd:

"Rwy'n hapus iawn â'r gofal a roddir yma. Rydym yn ffodus iawn i gael gwasanaeth mor dda"

"Staff gwych sy'n barod eu cymwynas bob amser"

"Tîm ardderchog, gofalgar"

Yn yr holiaduron, gofynnwyd i'r cleifion sut y gallai'r practis wella'r gwasanaeth a ddarperir ganddo. Awgrymodd un claf:

"Byddai'n fanteisiol cael mwy o feddygon benywaidd"

Cadw'n iach

Roedd gwybodaeth ar gael ar bosteri a oedd yn cael eu harddangos ar waliau'r ardal aros a'r ystafelloedd ymgynghori. Roedd hyn er mwyn helpu'r cleifion a'u gofalwyr i gymryd cyfrifoldeb am eu hiechyd a'u llesiant eu hunain. Ymhlith yr enghreifftiau o'r wybodaeth a oedd wedi'i harddangos roedd:

- Rhoi'r gorau i smygu
- Brechiadau
- Sgrinio am Oes.

Roedd nifer o daflenni gwybodaeth i gleifion ar gael i ategu'r wybodaeth a oedd wedi'i harddangos ar yr hysbysfyrddau a gallai'r cleifion ddarllen y taflenni hynny a mynd â nhw adref gyda nhw. Fodd bynnag, prin oedd y deunydd hybu iechyd a oedd yn ymwneud â ffitrwydd, byw'n iach ac iechyd meddwl.

Roedd cyngor a gwybodaeth yn benodol i ofalwyr hefyd i'w gweld yn yr ardal aros. Roedd gan y practis ddau hyrwyddwr gofalwyr enwebedig hefyd er mwyn helpu i roi gwybodaeth ddefnyddiol i ofalwyr am asiantaethau a sefydliadau lleol a all roi cymorth iddynt â'u cyfrifoldebau o ddydd i ddydd. Mae'r practis yn gofyn i'r cleifion gwblhau ffurflen sy'n ymwneud ag unrhyw anghenion gofal. Mae hyn wedyn yn tynnu sylw'r practis at y cleifion hynny y gall fod angen cymorth ychwanegol arnynt o ran eu rolau fel gofalwyr.

Er bod taflenni'r Cyngor Iechyd Cymuned² a thafleini Gweithio i Wella'r GIG yng Nghymru³ yn y dderbynfa, nid oedd poster yn cael ei arddangos i hysbysebu'r broses hon i'r cleifion.

² <http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/899/page/71619>

³ 'Gweithio i Wella ' yw'r broses integredig ar gyfer codi pryderon, ymchwilio iddynt a dysgu ohonynt. Mae pryderon yn cynnwys materion a nodir o ddigwyddiadau diogelwch cleifion, cwynion, ac, mewn perthynas â chyrrff y GIG yng Nghymru, honiadau am wasanaethau a ddarperir gan gorff cyfrifol yng Nghymru.

Roedd y practis yn cynnig amrywiaeth o wasanaethau meddygol cyffredinol a oedd yn anelu at hybu iechyd a llesiant y cleifion, fel y nodir yn adran 'Yr hyn a welsom' yr adroddiad hwn.

Mae'r Cynllun Datblygu Practis⁴ dyddiedig 2017 yn dangos bod y practis yn gwbl ymwybodol o'r angen i ddenu clinigwyr i'r ardal a'u cadw. Mae dau gydymaith meddygol yn ymarfer yn y practis, sy'n gobeithio cyflogi uwch-ymarferydd nyrsgio rhan-amser.

Mae fferyllfa yn y practis hefyd. Mae'n rhaid i gleifion o Lanidloes sy'n byw o fewn milltir i'r practis gael eu presgripsiwn o'r fferyllfa yn y dref (oni bai eu bod yn cael anawsterau difrifol). Mae cleifion sy'n byw fwy na milltir i ffwrdd o'r practis yn gallu cael eu presgripsiwn yn fferyllfa'r practis.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r practis wneud y canlynol:

- Cael gafael ar ragor o daflenni hybu iechyd a phosteri sy'n ymwneud â byw'n iach
- Arddangos gwybodaeth am broses Gweithio i Wella y GIG (Cymru).

Gofal ag urddas

Roedd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur yn teimlo eu bod wedi cael eu trin ag urddas a pharch gan staff y practis.

Dywedodd ychydig dros draean o'r cleifion a gwblhaodd holiadur wrthym y gallent bob amser drefnu i weld y meddyg o'u dewis.

Gwnaethom siarad â chleifion yn yr ardal aros cyn eu hapwyntiad, ac roedd yr adborth a roesant yn gadarnhaol iawn. Dywedodd pob un o'r cleifion wrthym fod y staff yn gwrtais ac yn gymwynasgar a gwnaethant ganmol y gofal roeddent yn ei gael. Roedd pob un ohonynt yn teimlo bod eu gofal a'u triniaeth yn cael eu

⁴ Adolygiad o angen lleol a'r gwasanaethau a ddarperir gan y practis er mwyn creu Cynllun Datblygu Practis gyda blaenoriaethau ar gyfer gweithredu

hesbonio'n llawn iddynt, eu bod yn gallu gofyn cwestiynau a bod ganddynt amser i fynegi unrhyw bryderon. Dywedodd rhai cleifion wrthym hefyd fod y staff yn gwrando arnynt, eu bod yn cymryd rhan yn y penderfyniadau am eu triniaeth a'u bod yn deall y rhesymau dros ragnodi unrhyw driniaeth a'r manteision.

Roedd staff y dderbynfa i'w gweld yn amyneddgar ac yn gyfeillgar. Roedd panel gwydr rhwng y dderbynfa a'r brif ystafell lle roedd y derbynyddion yn gweithio, a olygai na ellid clywed sgysiau ffôn yn hawdd yn yr ardal aros. Roedd arwyddion hefyd yn esbonio bod y ffenestri ar gau am resymau cyfrinachedd. Roedd ffenestr preifatrwydd ar wahân wrth ochr y dderbynfa i ffwrdd o'r ardal aros, lle gallai cleifion drafod unrhyw faterion yn breifat.

Roedd yr ystafelloedd ymgynghori a'r ystafelloedd triniaeth ar y llawr gwaelod ac i ffwrdd o'r ardaloedd aros. Gwelsom fod drysau'r ystafelloedd wedi'u cau yn ystod ymgynghoriadau. Roedd hyn yn helpu i ddiogelu preifatrwydd ac urddas y cleifion yn ystod eu hymgyngoriadau. Roedd bleindiau ffenestr yn yr ystafelloedd ymgynghori â ffenestri er mwyn sicrhau preifatrwydd yn ystod apwyntiadau'r cleifion a dywedwyd wrthym fod y bleindiau yn cael eu cau yn ystod ymgynghoriadau.

Gwybodaeth i gleifion

Dywedodd pob un ond tri o'r cleifion a gwblhaodd holiadur wrthym y byddent yn gwybod sut i gysylltu â'r gwasanaeth meddygon teulu y tu allan i oriau. Mae manylion yn disgrifio sut i gael gafael ar y gwasanaeth hwn ar gael ar wefan y practis⁵, wrth y fynedfa allanol, yn y dderbynfa ac ar system ffôn y practis.

Roedd gwefan a thaflen wybodaeth i gleifion y practis yn dda ac roeddent wrthi'n cael eu diweddarau. Er nad oes gan y practis grŵp cyfranogiad cleifion⁶, mae'r practis yn ymwneud â'r grŵp cleifion sy'n gysylltiedig â'r ysbyty cymunedol lleol. Mae'r uwch-feddygon teulu yn mynychu'r grŵp ac yn rhoi adborth i reolwr y practis.

⁵ <http://www.arwystlimedicalpractice.wales.nhs.uk/out-of-hours-and-emergencies>

⁶ Mae grŵp cyfranogiad cleifion yn cynnwys cleifion sy'n gwirfoddoli i gyfarfod â staff practis yn rheolaidd er mwyn trafod gwaith y practis. Nod y grŵp yw rhoi adborth i'r practis am farn cleifion ac awgrymiadau am wella, newid a datblygu gwasanaethau cleifion. Nid fforwm ar gyfer cwynion neu faterion unigol yw'r cyfarfodydd hyn.

Cyfathrebu'n effeithiol

Dywedodd pob un ond un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur wrthym eu bod yn gallu siarad â'r staff yn eu dewis iaith weithiau o leiaf. Yn ogystal, dywedodd pob un ond un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur eu bod yn teimlo bod pethau bob amser yn cael eu hesbonio iddynt yn ystod eu hapwyntiad mewn ffordd y gallant ei deall. Dywedodd pob un o'r cleifion wrthym eu bod yn cael eu cynnwys gymaint ag yr hoffent yn y penderfyniadau a wneir am eu gofal.

Nid oedd unrhyw siaradwyr Cymraeg ymhlith aelodau o staff y practis. Roedd peth gwybodaeth ar gael yn Gymraeg, ond dywedwyd wrthym mai Saesneg yw mamiaith y rhan fwyaf o'r cleifion. Ychydig iawn o wybodaeth a oedd yn cael ei harddangos yn Gymraeg, ac roedd hynny'n arbennig o wir am hysbysiadau a luniwyd gan y practis. Dylid gwneud trefniadau i ddarparu mwy o wybodaeth yn Gymraeg a helpu'r staff i wneud 'Cynnig Rhagweithiol'⁷. Dywedwyd wrthym hefyd fod y practis yn aros am arwyddion ychwanegol i unioni'r mater hwn.

Dywedodd yr aelodau o'r staff y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn gallu cael gafael ar wasanaethau cyfieithu dros y ffôn pan fo angen gwneud hynny.

Roedd tair dolen sain ar gael yn y practis, er mwyn helpu cleifion trwm eu clyw i gyfathrebu. Roedd y ffaith bod y rhain ar gael hefyd yn cael ei hysbysebu ar hysbysfyrddau'r cleifion.

Caiff negeseuon (gan gleifion ac eraill) eu derbyn gan y tîm gweinyddol a'u cofnodi mewn llyfr dydd electronig, ac mae meddyg teulu neu nyrs yn eu hadolygu ac yn ymdrin â nhw. Mae hyn yn cynnwys adolygu canlyniadau labordy yr ymdrinnir â nhw ar ddechrau'r diwrnod. Pan gaiff camau gweithredu eu cwblhau, mae'r neges ar y sgrin yn newid lliw, er mwyn nodi hyn.

Caiff ymweliadau cartref eu brysbennu gan feddyg teulu ac mae trywydd archwilio yn y system electronig. Caiff gwybodaeth ei sganio hefyd a'i hanfon at y meddyg teulu drwy DOCMAN⁸. Mae'r staff gweinyddol yn cadarnhau nad oes unrhyw dasgau nas cwblhawyd.

⁷ Mae 'Cynnig Rhagweithiol' yn golygu darparu gwasanaeth yn Gymraeg heb i neb orfod gofyn amdano. <https://gov.wales/topics/health/publications/health/guidance/words/?skip=1&lang=cy>

⁸ <https://www.docman.com>

Gofal amserol

Dywedodd y rhan fwyaf o'r cleifion a gwblhaodd holiadur wrthym eu bod yn fodlon iawn ar oriau agor y practis. Cadarnhaodd pob un ond un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur ei bod yn hawdd iawn neu'n eithaf hawdd cael apwyntiad pan oedd ei angen arnynt.

Pan ofynnwyd iddynt ddisgrifio eu profiad cyffredinol o drefnu apwyntiad, dywedodd bron pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur ei fod yn dda iawn neu'n dda.

Roedd y cleifion y gwnaethom siarad â nhw yn ystod yr arolygiad yn hapus â'r amseroedd aros, gan ddweud wrthym eu bod fel arfer yn gallu cael eu gweld ar yr un diwrnod.

Ni welsom gleifion yn aros yn hir yn y dderbynfa am eu hapwyntiad. Dywedodd staff y dderbynfa wrthym y byddent yn dweud wrth gleifion pe byddai oedi sylweddol ac y byddent wedyn yn cynnig y cyfle i gleifion naill ai aildrefnu'r apwyntiad neu ddychwelyd i'r practis yn nes ymlaen yn y diwrnod, pe na baent yn gallu aros am ragor o amser.

Defnyddir Fy lechyd Ar-lein ar gyfer presgripsiynau amlroddadwy. Ni chaiff ei ddefnyddio ar gyfer apwyntiadau ar-lein. Dylai'r practis ymchwilio ymhellach i ehangu'r defnydd a wneir o Fy lechyd Ar-lein, i gynnwys apwyntiadau ac anfon negeseuon ar-lein.

Gofal unigol

Cynllunio gofal i hybu annibyniaeth

Roedd drysau llithro awtomatig allanol yn cynnig mynediad hawdd i'r cyntedd; roedd y drws mewnol i'r dderbynfa yn cael ei weithredu drwy wthio botwm ac roedd yn ddigon llydan ar gyfer cadeiriau olwyn a chadeiriau gwthio. Roedd ffenestr isel (addas i ddefnyddwyr cadair olwyn) yn y brif fynedfa ger y fferyllfa. Yn ogystal, roedd system cofnodi cleifion electronig yng nghyntedd y practis.

Roedd manau parcio ar gael y tu ôl i'r practis ar gyfer y staff ac roedd chwe chilfan i gleifion anabl wedi'u marcio'n glir o flaen yr adeilad. Roedd rhai manau parcio ar gael ar y ffordd hefyd ac roedd maes parcio cyngor mawr yn uniongyrchol gyferbyn â'r practis. Roedd manau parcio am ddim ar gael hefyd tua phum munud i ffwrdd. Roedd toiled hygyrch yn yr ardal aros ger y fynedfa ac un arall yng nghoridor yr ystafell driniaeth. Roedd hyn yn hybu annibyniaeth cleifion â phroblemau symudedd.

Hawliau pobl

Roedd hawliau pobl yn cael eu hybu yn y practis ac roedd trefniadau ar waith i ddiogelu hawliau pobl i breifatrwydd. Yn ogystal, gwelsom y staff yn trin cleifion ag urddas, parch a charedigrwydd.

Fel y tanlinellwyd yn flaenorol, gallai perthnasau neu ofalwyr aros gyda'r cleifion yn y practis ac yn ystod eu hymgyngoriad neu eu triniaeth os oeddent yn dymuno. Roedd gan y practis bolisi hebryngwyr ac roedd hysbysiad yn rhoi gwybod i gleifion am y gweithdrefnau o ran hebryngwyr yn yr ystafell aros. Roedd y wybodaeth hefyd ar yr hysbysfwrdd ym mhob ystafell ymgynghori ac ystafell driniaeth. Dywedwyd wrthym fod y staff gweinyddol a'r staff nyrsio wedi cwblhau hyfforddiant hebryngwyr. Nod defnyddio hebryngwyr yw diogelu cleifion a staff gofal iechyd pan gynhelir archwiliadau personol o'r cleifion.

Gwrando ar adborth a dysgu ohono

Roedd blwch awgrymiadau i gleifion/ymwelwyr ar gael ynghyd â beiros a phapur yn y dderbynfa, ac roedd yr holl sylwadau'n cael eu ffeilio. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw broses ar waith ar gyfer rhoi gwybod i gleifion am ganlyniadau neu gamau gweithredol a oedd yn deillio o'r awgrymiadau. Yn ogystal, nid oedd unrhyw broses ar waith i gynnal arolwg o'r cleifion, nac i gael eu hadborth yn gyffredinol. Rydym yn argymhell y dylai'r practis ystyried gwneud hyn yn rheolaidd.

Rhoddwyd pwyslais ar ddelio â ffynhonnell unrhyw gwynion er mwyn datrys materion mor gyflym â phosibl. Roedd pob cwyn yn cael ei dwyn i sylw rheolwr y practis a fyddai'n delio â nhw yn unol â pholisi'r practis. Nid oedd y mwyafrif o'r cleifion y gwnaethom gyfweld â nhw yn ystod yr arolygiad yn gwybod sut i wneud cwyn, ond gwnaethant ddweud y byddent yn teimlo'n ddigon cyfforddus i ofyn yn y dderbynfa, neu siarad ag aelod o'r staff. Roedd gwybodaeth am gwynion yn cael ei harddangos yn yr ardal aros, ac eithrio'r poster 'Gweithio i Wella' fel y disgrifir uchod.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r practis wneud y canlynol:

- Ystyried i roi adborth i gleifion am unrhyw gamau gweithredu neu ganlyniadau sy'n deillio o'u hawgrymiadau
- Cwblhau arolygon rheolaidd o'r cleifion, er mwyn cael eu barn ar y practis, yn annibynnol ar unrhyw arolygon a gynhelir gan y Bwrdd Iechyd.

Darparu gofal diogel ac effeithiol

Ystyriwyd i ba raddau y mae gwasanaethau'n darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Gwelsom fod gan y practis drefniadau i hybu gofal diogel ac effeithiol i gleifion. Gwelsom dîm o staff a oedd yn canolbwyntio ar y claf ac yn ymrwymedig i ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel i'w gleifion.

Mae'n rhaid rhoi rhaglen o archwiliadau clinigol ac ansawdd ar waith er mwyn dangos sicrwydd yn unol â safonau, a chefnogi'r gwasanaeth i barhau i wella.

Gofal diogel

Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch

Roedd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur yn teimlo ei bod yn hawdd iawn neu'n eithaf hawdd mynd i mewn i adeilad y practis.

Wrth fynd o amgylch y practis, gwelsom fod yr holl ardaloedd a oedd yn agored i gleifion yn lân ac yn glir rhag rhwystrau, a oedd yn lleihau'r risg o faglu a chwmpo. Gwelsom fod adeilad y practis mewn cyflwr da y tu mewn a'r tu allan.

Roedd y cyfarpar diogelwch tân yn cael ei gynnal a'i gadw'n flynyddol ac yn cael ei gadw mewn lleoliad priodol yn y practis. Dywedwyd wrthym fod y staff yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau ac y byddent yn rhoi gwybod am unrhyw bryderon i reolwr y practis neu uwch-aelod o'r staff.

Roedd gan y practis gofrestr risg a oedd yn cael ei diweddarau'n rheolaidd ac roedd risgiau hefyd ar agenda cyfarfodydd y practis. Gwelsom dystiolaeth i ddangos bod risgiau yn cael eu monitro, megis recriwtio meddygon teulu mewn practis gwledig. Roedd gan y practis gynllun parhad busnes, y dywedwyd wrthym ei fod wrthi'n cael ei ddiweddarau.

Mae clwstwr ehangach⁹ ar waith a dywedodd y staff wrthym eu bod yn gweithio'n agos gyda phractisau eraill yn y clwstwr. Fodd bynnag, roedd rhai meddygon teulu yn teimlo y gallai fod yn fwy manteisiol i'r practis. Dywedwyd wrthym fod y meddyg teulu sy'n arweinydd y clwstwr wrthi'n gweithio gyda'r clwstwr er mwyn datblygu'r gydberthynas a'r manteision i'r practis ymhellach. Mae'r clwstwr yn ystyried defnyddio system gyfeillio rhwng practisau yn y dyfodol, er mwyn ymdrin ag unrhyw ddigwyddiad mawr a fyddai'n golygu na ellid cael mynediad at y feddygfa. Mae gan y clwstwr feddygfa gangen yng Nghaersws, sydd tua naw milltir o Lanidloes, sy'n fanteisiol o ran parhad busnes os bydd problem yn y practis yn Llanidloes.

Gwelsom fod polisiâu newydd, a newidiadau i bolisiâu, yn cael eu hanfon at y staff drwy e-bost, a bod yr e-bost yn gofyn am neges cadarnhau darllen. Cedwir rhestr o bob aelod o staff sydd wedi anfon neges cadarnhau darllen ar gyfer pob polisi yn ôl yr angen. Cafwyd tystiolaeth bod polisiâu'n cael eu hadolygu bob blwyddyn gan reolwr y practis a'r rheolwr gwasanaethau cleifion. Dywedodd rheolwr y practis fod y practis yn ystyried symud ei bolisiâu i DOCMAN, fel ffordd o gael trywydd archwilio a gynhelir gan y system sy'n dangos pwy sydd wedi darllen pob polisi.

Atal a rheoli heintiau

Ni leisiwyd unrhyw bryderon gan y cleifion ynghylch glendid y practis. Roedd y mwyafrif o'r cleifion a gwblhaodd holiadur o'r farn bod y practis deintyddol yn lân iawn.

Roedd yr ardal aros, y coridorau, yr ystafelloedd triniaeth a'r ystafelloedd ymgynghori i gyd i'w gweld yn lân. Gwelsom fod cyfarpar diogelu personol, fel menig a ffedogau tafladwy, ar gael i'r staff clinigol eu defnyddio er mwyn lleihau'r risg o groes-heintio.

Roedd lloriau, byrddau gwaith a chypyrddau y gellir eu golchi ym mhob ystafell driniaeth ac ystafell ymgynghori er mwyn sicrhau y gellid eu glanhau'n hawdd ac yn effeithiol.

⁹ Ystyr Clwstwr yw grŵp o feddygon teulu sy'n gweithio gyda gweithwyr iechyd a gofal proffesiynol eraill i gynllunio a darparu gwasanaethau yn lleol.

Gwelsom fod gwastraff domestig (cartref) a gwastraff clinigol (gan gynnwys offer miniog meddygol) wedi'u rhannu i gynwysyddion/bagiau o liwiau gwahanol a phriodol er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu gwaredu'n gywir ac yn ddiogel. Roedd gwastraff clinigol a oedd yn aros i gael ei gasglu yn cael ei storio dan glo er mwyn atal mynediad heb awdurdod.

Roedd polisïau atal a rheoli heintiau ar waith ac roeddent yn adlewyrchu'r trefniadau presennol, gan gynnwys gweithgarwch archwilio ac amserlenni glanhau, yn gywir. Gwelsom fod archwiliad rheoli heintiau wedi cael ei gynnal yn ddiweddar.

Gwelsom dystiolaeth i ddangos bod cofnodion unigol wedi cael eu cadw ar gyfer pob aelod o'r staff clinigol mewn perthynas â'u statws imiwneiddio Hepatitis B.

Roedd llenni tafladwy i ddiogelu urddas wedi'u gosod o amgylch y gwelyau archwilio ym mhob ystafell ymgynghori ac ystafell driniaeth, er mwyn helpu i atal neu leihau'r risg o groes-heintio.

Rheoli meddyginiaethau

Mae'r clinigwyr yn cynnal adolygiadau o feddyginiaethau bob blwyddyn. Mae'r fferylllydd lleol sy'n cynnal y fferyllfa yn Llanidloes hefyd yn cynnal ymarfer i gadarnhau a ddylai cleifion fod ar y cofrestri clefydau cronig. Mae'r practis wedi gwerthfawrogi mewnbwn y fferylllydd hwn ers blynnyddoedd lawer, gan gynnwys rhoi cymorth a chynghor ar reoli meddyginiaethau i'r practis, gan gynnwys y fferyllfa. Yn ogystal, pan welir cleifion am resymau eraill, manteisir ar y cyfle i adolygu'r meddyginiaethau a ddefnyddir.

Byddai unrhyw ddigwyddiadau pwysig o ran rheoli meddyginiaethau yn cael eu trafod â'r tîm rheoli meddyginiaethau yn y Bwrdd Iechyd. Cawsom wybod bod taflenni camgymeriad a fu bron â digwydd yn cael eu cwblhau yn y fferyllfa. Caiff adweithiau niweidiol i gyffuriau eu hadrodd i'r Bwrdd Iechyd drwy'r system ¹⁰Cerdyn Melyn. Cysylltir â thîm rheoli meddyginiaethau'r Bwrdd Iechyd er mwyn dinistrio cyffuriau.

¹⁰ <http://www.wales.nhs.uk/eingwasanaethau/atebolircyhoedd/gweithioiwella>

Gwelsom fod cofnod o archwiliadau rheolaidd o offer a chyffuriau i'w defnyddio mewn argyfwng. Gwelsom gofnodion i ddangos bod pob aelod o'r staff yn cael hyfforddiant ar sut i ymdrin ag argyfwng yn ymwneud â chleifion yn rheolaidd.

Gwelsom nad oedd tymereddau'r oergelloedd a ddefnyddir i storio brechlynnau yn cael eu gwirio'n gyson bob dydd. Gwneir hyn er mwyn sicrhau y caiff brechlynnau eu storio ar dymheredd priodol i wneud yn siŵr eu bod yn addas i'w defnyddio bob amser.

Diogelu plant ac oedolion sy'n wynebu risg

Roedd gan y practis bolisi a gweithdrefnau ysgrifenedig eraill mewn perthynas â diogelu plant ac oedolion sy'n wynebu risg. Nod y gweithdrefnau hyn yw hybu ac amddiffyn lles a diogelwch plant ac oedolion sy'n agored i niwed neu sy'n wynebu risg.

Disgrifiwyd y trefniadau sydd ar waith i gofnodi a diweddarau gwybodaeth berthnasol am amddiffyn plant ar y system cofnodion cleifion electronig. Cawsom wybod, lle y bo'n gymwys, fod rhybuddion yn cael eu gosod ar y system cofnodion cleifion electronig, neu'n cael eu dileu, pan fyddai unrhyw fater amddiffyn plant yn cael ei nodi neu pan fyddai angen unrhyw ddiwygiadau.

Roedd meddyg teulu dynodedig yn y practis yn arwain ar faterion yn ymwneud ag amddiffyn a diogelu plant ac oedolion. Roedd person cyswllt Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan ar gael i'r holl staff hefyd. Roedd hyn yn golygu bod gan y staff berson cyswllt lleol i roi gwybod iddo am bryderon diogelu a thrafod y pryderon hynny.

Cadarnhaodd y staff y gwnaethom siarad â nhw y byddent yn rhoi gwybod i uwch-aelodau o staff y practis pe byddai ganddynt unrhyw bryderon am les claf. Dywedodd y staff hefyd eu bod yn cael eu hannog a'u grymuso i godi unrhyw bryderon a all fod ganddynt am ddiogelwch cleifion a/neu eu diogelwch eu hunain. Gwnaethant ddweud wrthym y byddai'r uwch-staff yn gwrando arnynt ac yn cymryd camau yn ôl yr angen.

Dywedodd rhieni a phlant wrthym fod meddygon yn siarad yn uniongyrchol â phlant yn ystod ymgynghoriadau, gan eu cynnwys yn y trafodaethau a rhoi'r cyfle iddynt siarad. Dywedodd pob un o'r rhieni y gwnaethom siarad â nhw fod plant yn teimlo'n gyfforddus yn ystod ymweliadau.

Roedd y cofnodion hyfforddiant yn dangos bod yr holl staff clinigol wedi cwblhau hyfforddiant amddiffyn plant lefel tri. Fodd bynnag, nid oedd hyfforddiant y rhan fwyaf o'r staff gweinyddol yn gyfredol. Mae'r practis yn ystyried defnyddio rhagor o hyfforddiant ar-lein yn y dyfodol.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r practis sicrhau bod yr holl staff yn cael hyfforddiant diogelu ar lefel sy'n gymwys i'w rolau o fewn amserlenni priodol, a bod proses gadarn ar waith ar gyfer monitro amserlenni a chwblhau'r hyfforddiant.

Gofal effeithiol

Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Cronfa ddata ganolog o ddigwyddiadau sy'n ymwneud â diogelwch cleifion yw'r System Genedlaethol ar gyfer Adrodd a Dysgu. Mae'r gronfa ddata yn ei gwneud yn bosibl i weithwyr gofal iechyd proffesiynol gofnodi, rhannu a defnyddio gwybodaeth hanfodol yn dilyn digwyddiadau sy'n ymwneud â diogelwch cleifion, er mwyn gallu rhannu'r hyn a ddysgwyd a darparu gofal gwell, mwy diogel a mwy effeithlon. Ni welsom unrhyw dystiolaeth bod system ar waith ar gyfer cael mynediad i'r System Genedlaethol ar gyfer Adrodd a Dysgu, nac anfon gwybodaeth iddi. Gwnaethom gynghori y dylai'r practis ystyried defnyddio'r System Genedlaethol ar gyfer Adrodd a Dysgu, er budd gwybodaeth cleifion a staff. Gellid hefyd ddefnyddio'r system hon mewn cysylltiad â materion diogelwch pwysig yn ymwneud â rheoli meddyginiaethau.

Cadarnhaodd y staff clinigol fod rheolwr y practis yn anfon rhybuddion diogelwch perthnasol drwy e-bost. Disgrifiwyd trefniadau i drafod arfer gorau a chanllawiau proffesiynol â'r staff a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt amdanynt.

Dywedwyd wrthym fod unrhyw wybodaeth berthnasol, fel y'i disgrifir uchod, yn cael ei lledaenu i bob aelod o'r staff drwy negeseuon e-bost a hysbysfwrdd electronig. Fodd bynnag, nid oedd y practis yn cadw cofnod o bwy oedd wedi darllen ac wedi deall y wybodaeth a rannwyd. Gwnaethom gynghori y dylai'r practis gofnodi pan fydd staff wedi darllen y wybodaeth berthnasol a rennir ynghyd ag unrhyw gofnodion o gyfarfodydd perthnasol. Yn ogystal, dylai rhybuddion gael eu cadw'n ganolog er hwylustod pob aelod o'r staff. Dylid gwneud hyn er mwyn cyfathrebu'n effeithiol a rhannu gwersi i'w dysgu fel y gellir hybu diogelwch y cleifion.

Gwnaethom nodi bod gan y staff clinigol wybodaeth dda am y canllawiau cyfredol a luniwyd gan y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal

(NICE)¹¹ ac unrhyw rybuddion diogelwch cleifion cenedlaethol, drwy gyfarfodydd clinigol, amser wedi'i ddiogelu a dulliau anffurfiol.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r practis sicrhau y caiff diweddariadau, arfer gorau a chanllawiau newydd eu rhannu bob amser â'r staff mewn ffordd ffurfiol ac amserol, ac y caiff tystiolaeth ei chofnodi i ddangos bod y staff wedi eu darllen a'u deall.

Gwella ansawdd, ymchwil ac arloesi

Dyweddodd un meddyg teulu wrthym y cynhelir Dadansoddiadau o Ddigwyddiadau Arwyddocaol yn fewnol, a disgrifiodd fod y broses yn cynnwys uwchgyfeirio drwy'r tîm gofal sylfaenol a'r tîm rheoli meddyginiaethau yn y bwrdd iechyd a'r clwstwr. Caiff Digwyddiadau Arwyddocaol eu cynnwys ym mhroses arfarnu'r meddygon teulu hefyd, a gwelwyd enghreifftiau yn ystod yr arolygiad. Gwelsom hefyd fod nyrsys y practis yn trafod dadansoddiadau o ddigwyddiadau arwyddocaol ymysg ei gilydd, ond mae'n ymddangos nad yw'r staff meddygol a'r staff nyrsio yn trafod pob dadansoddiad o ddigwyddiad arwyddocaol. Dylai pob aelod o'r staff meddygol a'r staff nyrsio gymryd rhan yn y dadansoddiadau o ddigwyddiadau arwyddocaol ni waeth beth oedd lleoliad y digwyddiad er mwyn sicrhau dysgu ar y cyd.

Mae Dadansoddiadau o Ddigwyddiadau Arwyddocaol yn rhan gynyddol arferol o ymarfer cyffredinol. Diben y dechneg yw myfyrio ar achosion unigol, a dysgu oddi wrthynt, er mwyn gwella ansawdd cyffredinol y gofal. Er mwyn bod yn effeithiol, mae Dadansoddiadau o Ddigwyddiadau Arwyddocaol yn aml yn gofyn am gyfraniadau gan bob aelod o'r tîm iechyd ac yn cynnwys trafodaeth ddilynol i ateb pam cafwyd y digwyddiad a pha wersi y gellir eu dysgu. Mae'n gyfle i gasglu tystiolaeth o ddysgu o ddigwyddiadau a gwella ansawdd. Byddai tystiolaeth yr effaith a'r dysgu sydd wedi deillio o'r Dadansoddiad o Ddigwyddiad Arwyddocaol fel arfer i'w gweld yn y practis. Yn ddelfrydol, byddai practisau'n sicrhau bod y

¹¹ Rôl y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal yw darparu canllawiau awdurdodol, cadarn a dibynadwy i gleifion, gweithwyr iechyd proffesiynol a'r cyhoedd am yr 'arfer gorau' presennol.

dysgu o ddadansoddiadau o Ddigwyddiadau Arwyddocaol yn cynnwys y tîm cyfan ac yn cael ei wreiddio yn ymarfer dyddiol.

Ni ddarparwyd unrhyw dystiolaeth yn ystod yr arolygiad fod trafodaethau am Ddadansoddiadau o Ddigwyddiadau Arwyddocaol yn cynnwys tîm ehangach y practis, gan gynnwys staff y dderbynfa, gweinyddwyr, staff TG, staff y fferyllfa a hyd yn oed staff cymunedol ac ati. Byddai hyn hefyd yn dibynnu ar natur y digwyddiad arwyddocaol a gall trafodaeth glinigol fod yn briodol rhwng meddygon, nyrsys a chymdeithion meddygol ac ati. Dylid cynnal cyfarfodydd amlddisgyblaethol rheolaidd mewn practis lle trafodir Dadansoddiadau o Ddigwyddiadau Arwyddocaol. Mae hyn yn helpu i ddatblygu diwylliant tîm a rhannu'r hyn a ddysgir.

Rheolwr y practis yw cadeirydd grŵp rheolwyr practisau lleol, mae'n aelod o grŵp hyfforddi Bwrdd Iechyd Addysgu Powys ac mae hefyd yn mynychu cyfarfodydd clwstwr.

Mae'r practis yn rhan o Rith-ward Powys¹². Mae'r Rhith-ward yn fodel a arweinir gan feddygon teulu sy'n hyrwyddo gwaith amlasiantaeth i ofalu am bobl yn eu cartrefi eu hunain a'u hatal rhag gorfod cael eu derbyn i'r ysbyty. Gellir atgyfeirio cleifion hŷn ac eiddil, a'r rhai sydd ag anghenion gofal cymhleth, i'r Rhith-ward i gael eu monitro'n agosach gan amrywiaeth o weithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol, gan gynnwys Meddygon Teulu a Nyrsys. Cynhelir cyfarfod dyddiol â'r tîm Nyrsio Cymunedol ar ddechrau'r diwrnod i drafod y cleifion hynny sydd ar y Rhith-ward a'r rhai sy'n peri pryder yn y gymuned.

Mae crynodeb Mehefin 2019 o gynllun datblygu'r practis yn nodi bod y prosiect Rhith-ward yn datblygu'n dda ac yn arwain at ddarparu gofal gwell ac mae'r practis yn cefnogi parhad y prosiect yn gryf.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r practis sicrhau bod proses unedig ar gyfer trafod Dadansoddiadau o Ddigwyddiadau Arwyddocaol i bob aelod clinigol ac anghlinigol o'r staff.

¹² <http://www.biapowys.cymru.nhs.uk/rhith-ward/>

Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg cyfathrebu

Roedd trefniadau llywodraethu gwybodaeth da ar waith mewn perthynas â diogelwch data electronig am gleifion a'u cofnodion meddygol. Dywedwyd wrthym hefyd fod y staff wedi cael hyfforddiant ar y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) yn ddiweddar.¹³

Roedd y staff TG dynodedig yn gyfrifol am gofnodi gwybodaeth am ryddhau cleifion a'u codio yn briodol. Maent wedi cael yr hyfforddiant angenrheidiol ar y gweithdrefnau hyn.

Mae'r meddygon teulu yn gyfrifol am ddiweddarau'r system glinigol gydag unrhyw newidiadau sydd eu hangen i feddyginiaeth, sy'n enghraifft o arfer da, ac anfonir bob llythyr at y meddyg teulu i'w adolygu.

Cadw cofnodion

Mae rhwymedigaeth ar sefydliadau gofal iechyd i sicrhau y darperir pob agwedd ar ofal, gan gynnwys atgyfeirio, asesu, diagnosis, triniaeth, trosglwyddo gofal a rhyddhau, ynghyd â gofal diwedd oes, mewn ffordd amserol sy'n gyson ag amserlenni, llwybrau ac arfer gorau cenedlaethol.

Mae'n hanfodol cadw cofnodion da er mwyn sicrhau bod pobl yn cael gofal effeithiol a diogel. Mae'n rhaid i wasanaethau iechyd sicrhau y caiff yr holl gofnodion eu cadw yn unol â deddfwriaeth a chanllawiau safonau clinigol. Gwnaethom adolygu sampl o gofnodion cleifion ac ar y cyfan, roeddent o safon dda, gan gefnogi'r gofal a'r driniaeth a roddir i'r cleifion. Gwnaethom argymhell y gellid gwneud rhai gwelliannau er mwyn sicrhau y caiff yr holl gofnodion eu cadw i safon gyson. Roedd hyn yn cynnwys cofnodi tystiolaeth o drafodaethau â chleifion am risgiau a manteision unrhyw feddyginiaeth.

O fewn y sampl o gofnodion a adolygwyd, roedd tystiolaeth gyson i ddangos bod cysylltiad rhwng y diagnosis a'r feddyginiaeth berthnasol a ddefnyddiwyd. Roedd y cysylltiad hwn yn golygu pan oedd y claf yn cael y feddyginiaeth o'r fferyllfa, fod y label ar y feddyginiaeth yn cynnwys y rheswm dros gymryd y feddyginiaeth honno. Ystyrir bod hon yn enghraifft o arfer sy'n werth ei nodi, gan wella

¹³<https://ico.org.uk/for-organisations/guide-to-data-protection/guide-to-the-general-data-protection-regulation-gdpr/>

gwybodaeth a diogelwch cleifion. Cofnodwyd taflenni a roddwyd i gleifion yn glir yn y nodiadau hefyd .

Gwelsom hefyd fod y gwaith o grynhoi cofnodion cleifion yn cael ei wneud i safon dda gan nyrsys a chynorthwyrwyr gofal iechyd, a oedd wedi cael yr hyfforddiant perthnasol. Mae'r nyrsys yn goruchwyllo gwaith y cynorthwyrwyr gofal iechyd ac roedd polisi ar waith ar gyfer crynhoi.

Yn ystod yr arolygiad, fel rhan o'r adolygiad o gofnodion cleifion, nododd y tîm arolygu nad oedd claf ag anemia diffyg haearn wedi cael ei atgyfeirio drwy ddefnyddio atgyfeiriad llwybr canser a amheuir (i gael apwyntiad o fewn pythefnos) ar gyfer canser coloreferol, yn unol â chanllaw'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal, NG12, (*Suspected cancer: recognition and referral*). Roedd y cyfle i atgyfeirio'r claf wedi cael ei gollu, gan yr un clinigydd, ar dri ymweliad gwahanol â'r practis dros gyfnod o dri mis.

Sicrhaodd y meddyg teulu a oedd yn bresennol fod camau gweithredu'n cael eu cymryd ar unwaith gan y practis i fynd i'r afael â'r mater er mwyn sicrhau bod y claf yn cael ei weld a'i atgyfeirio'n briodol.

Trafodwyd hefyd yr angen i gynnal adolygiad a sicrhau na chollwyd unrhyw atgyfeiriadau eraill. Ymdriniwyd â'n pryderon yn hyn o beth o dan ein proses sicrwydd uniongyrchol. Roedd hyn yn golygu ein bod wedi ysgrifennu at y practis yn union wedi'r arolygiad gan nodi bod angen cymryd camau unioni ar frys. Mae manylion y gwelliannau uniongyrchol a nodwyd gennym yn Atodiad B.

Nid oedd unrhyw dystiolaeth i ddangos bod y practis wedi cynnal unrhyw archwiliadau o nifer o feysydd, gan gynnwys ansawdd cofnodion cleifion a chrynodebau cleifion, a gynhelir gan nyrsys a Chynorthwyrwyr Gofal Iechyd, nac ychwaith o grynnodebau, gan gynnwys y rheini a ddaeth i law o feddyg teulu i feddyg teulu. Rydym yn argymhell y dylid rhoi system o adolygiadau cymheiriaid ac archwiliadau ar waith.

Nid oedd gan y practis bolisi ffurfiol i archwilio ansawdd cofnodion cleifion. Mae wedi gwneud gwaith archwilio i ddiweddarau'r gofrestr methiant y galon ac yn gwerthfawrogi gwaith y fferylllydd lleol sydd wedi helpu i ddiweddarau'r cofrestr clefydau cronig.

Mae'r ddau gydymaith meddygol bellach yn cael cyfarfodydd un i un rheolaidd â'r meddyg teulu (er mwyn adolygu cofnodion cleifion). Mae meddyg teulu'n gwirio pob un o'u llythyrau atgyfeirio.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r practis sicrhau'r canlynol:

- Mae cofnodion cleifion yn cofnodi tystiolaeth o drafodaethau â chleifion am risgiau a manteision meddyginiaethau
- Cynhelir amrywiaeth o archwiliadau o gofnodion clinigol gan y practis
- Rhoddir system glanhau data ar waith mewn cysylltiad â chofnodion cleifion.

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Ystyriwyd y ffordd y mae'r gwasanaethau yn cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn helpu i ddarparu gofal diogel ac effeithiol. Ystyriwyd hefyd y ffordd y mae'r gwasanaethau'n adolygu ac yn monitro eu perfformiad eu hunain yn erbyn y Safonau Iechyd a Gofal.

Mae hwn yn bractis sefydledig ac mae llawer o'r staff wedi gweithio yn y practis ers amser hir. Mae'n ymddangos bod rheolwr y practis yn ymroddedig ac yn frwd iawn dros ei waith.

Mae angen i ffeiliau gwybodaeth y staff gynnwys cofnod cyflawn am y gweithwyr unigol. Dylai hyn gynnwys diweddarau gwybodaeth am hyfforddiant i'r staff a chadw tystiolaeth o'r holl hyfforddiant a chofnodion perthnasol eraill ar ffeil.

Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd

Gwelsom dîm o staff a oedd yn canolbwyntio ar y cleifion a oedd yn ymrwymedig i ddarparu gwasanaethau o safon uchel. Gwelsom fod y practis yn ei gyfanrwydd yn gweithio mewn ffordd gydlynus. Dywedodd y staff y gwnaethom siarad â nhw wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi gan y tîm rheoli a bod cyfleoedd hyfforddiant da ar gael iddynt.

Dywedodd rheolwr y practis y cynhelir cyfarfodydd rheolaidd â'r meddygon teulu a bod y rhan fwyaf o'r penderfyniadau'n cael eu gwneud yn y cyfarfodydd hyn. Ni chynhelir cyfarfodydd tîm cyfan, ond roedd yn ymddangos bod cydberthynas agored rhwng aelodau'r tîm a bod morâl y tîm yn dda. Nid oedd unrhyw gyfarfodydd rhwng y meddygon teulu a nyrsys y practis ychwaith. Fodd bynnag, dywedodd rheolwr y practis eu bod yn cydweithio'n agos a'u bod yn gefnogol i'w gilydd. Dywedodd rheolwr y practis fod pwysau ar adnoddau wedi ei gwneud hi'n anodd cyfarfod yn rheolaidd. Fodd bynnag, anogir y tîm i gyfrannu at faterion y practis.

Gwelsom fod cyfarfodydd staff chwarterol yn cael eu cynnal a bod y cofnodion yn cael eu cofnodi a'u dosbarthu. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn teimlo y gallent godi unrhyw bryderon, neu unrhyw faterion yn ystod y cyfarfodydd hyn, a'u bod yn teimlo y byddai rhywun yn gwrando arnynt. Dywedwyd wrthym fod adolygiad o rai o bolisiâu a gweithdrefnau'r practis wedi'i gynnal yn ddiweddar, a

bod newidiadau wedi cael eu trafod yn ystod y cyfarfodydd hyn, er mwyn sicrhau bod y staff yn cael yr holl wybodaeth ddiweddaraf.

Fel y tanlinellwyd eisoes yn yr adroddiad, gwelsom fod y practis yn ymgysylltu'n rhagweithiol â'r grŵp clwstwr lleol. Roedd rheolwr y practis yn mynychu'r cyfarfodydd, ac yn aml, byddai un o'r meddygon teulu sy'n bartner yn mynd hefyd. Gwelsom hefyd fod y practis yn cymryd rhan mewn cynlluniau peilot a drefnwyd gan y clwstwr, fel ffordd o helpu i wella gwasanaethau i gleifion.

Roedd gan y practis gynllun datblygu personol ar waith ac roedd llawer o'r meysydd i'w datblygu wedi cael eu gwella.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r practis sicrhau'r canlynol:

- Cynhelir cyfarfodydd staff rheolaidd
- Dylid dogfennu cofnodion cyfarfodydd a'u dosbarthu i bob aelod o'r staff, a dylai'r staff gadarnhau eu bod yn deall y cofnodion
- Cynhelir cyfarfodydd staff clinigol er mwyn rhannu dysgu a lluedaenu gwybodaeth glinigol briodol.

Staff ac adnoddau

Y Gweithlu

Mae pedwar meddyg teulu yn y practis ac maent i gyd yn bartneriaid. Cyn bo hir, disgwylir i'r uwchbartner leihau ei oriau gwaith i bedair sesiwn yr wythnos. Gwnaed cais cynaliadwyedd i'r bwrdd iechyd sydd wedi cael ei dderbyn a rhyddhawyd adnoddau i gyflogi'r canlynol:

- Meddyg teulu am bedair sesiwn am gyfnod o chwech i 12 mis.
- Technegydd fferyllfa yn rhan amser am 12 mis
- Uwch-ymarferydd Nyrsio yn rhan amser am 12 mis
- Cydymaith meddygol yn llawn amser am 12 mis.

Dywedodd y staff wrthym eu bod yn hapus yn eu gwaith a'u bod yn cael eu cefnogi'n dda i ddatblygu eu sgiliau a dilyn hyfforddiant. Roedd pob un o'r gweinyddwyr cleifion yn rhannu rolau a chyfrifoldebau, gyda rhai ohonynt wedi'u nodi fel swyddogion arweiniol ar gyfer meysydd unigol, megis risg tân. Dywedwyd wrthym y byddai'r staff yn gallu darparu cymorth a chyflenwi ar gyfer y rolau hyn yn ystod cyfnodau o absenoldeb.

Roedd matrices hyfforddiant wedi cael ei gyflwyno'n ddiweddar, ond nid oedd yn gyfredol. Dangosodd adolygiad o gofnodion y staff na chynhaliwyd hyfforddiant ar amddiffyn plant a diogelu oedolion agored i niwed ers 2015, ar gyfer y rhan fwyaf o'r staff gweinyddol. Ni chynhaliwyd hyfforddiant ar ddiogelwch tân ers mis Chwefror 2017 ar gyfer y staff gweinyddol ychwaith. Roedd aelod o'r staff wedi treialu hyfforddiant ar-lein ar y rhain yn ddiweddar, a chaiff hyn ei gyflwyno i bob aelod o'r staff yn y dyfodol agos.

Gwelsom fod y staff yn cael arfarniadau blynyddol, er mwyn adolygu eu gwaith dros y flwyddyn a aeth heibio, a hefyd nodi unrhyw anghenion wrth symud ymlaen i'r flwyddyn nesaf. Dywedodd y staff y gwnaethom siarad â nhw hefyd fod ganddynt Gynlluniau Datblygu Personol.

Gwelsom hefyd fod cynllun sefydlu ar waith er mwyn helpu i roi cymorth a chanllawiau i aelodau newydd o'r staff. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw dystiolaeth i ddangos bod hyn yn wir yn achos un aelod o'r staff.

Ni chawsom sicrwydd fod gwiriadau cyn cyflogi wedi cael eu gwneud ar gyfer dau aelod o'r staff, gan na chafwyd unrhyw eirdaon ar gyfer y ddau gyflogai newydd hyn. Roedd y ddau ohonynt wedi cael eu cyflogi gan leoliadau gofal iechyd lleol ac roeddent yn adnabyddus i'r practis. Roedd pob aelod o'r staff wedi cael disgrifiad swydd a contract cyflogaeth. Roedd gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gael ar gyfer pob aelod o'r staff.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r practis wneud y canlynol:

- Cynnal cofnod o hyfforddiant y staff a sicrhau bod y staff yn mynychu hyfforddiant o fewn amserlenni priodol.
- Cynnal cofnod o drefniadau sefydlu staff yn y practis.
- Sicrhau bod pob gwiriad cyn cyflogi yn cael ei wneud cyn penodi staff newydd.

4. Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgfyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella uniongyrchol gan ddweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir pryd a sut yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

5. Sut rydym yn arolygu practisau meddygon teulu

Fel arfer, rhoddir rhybudd ar gyfer arolygiadau o bractisau meddygon teulu. Bydd practisau meddygon teulu yn cael hyd at 12 wythnos o rybudd am arolygiad. Mae hyn er mwyn iddynt allu gwneud trefniadau i sicrhau bod y practis yn rhedeg fel arfer, a bod yr arolygiad yn tarfu cyn lleied â phosibl ar y cleifion.

Rhoddir adborth i gynrychiolwyr y practis ar ddiwedd yr arolygiad, mewn modd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefel weithredol ac ar lefel strategol.

Rydym yn edrych ar y ffordd y mae practisau meddygon teulu yn cyrraedd [Safonau Iechyd a Gofal 2015](#). Rydym yn ystyried safonau a chanllawiau proffesiynol eraill fel y bo'n gymwys.

Mae'r arolygiadau hyn yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal o fewn practisau meddygon teulu.

Ceir manylion pellach am y ffordd y mae AGIC yn arolygu [practisau meddygon teulu](#) a'r [GIG](#) ar ein gwefan.

Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut y cafodd y pryder ei uwchgyfeirio gan AGIC	Sut y cafodd y pryder ei ddatrys
Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol yn ystod yr arolygiad hwn.			

Atodiad B – Cynllun gwella uniongyrchol

Gwasanaeth: Practis Meddygol Arwystli

Dyddiad arolygu: 18 Mehefin 2019

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella uniongyrchol gan ddweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd.

Yr hyn sydd angen ei wella ar unwaith	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<p>Mae'n ofynnol i'r practis ddarparu manylion i AGIC am y camau y bydd yn eu cymryd ar unwaith er mwyn sicrhau'r canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none">Cynhelir Dadansoddiadau o Ddigwyddiadau Arwyddocaol a rhoddir gwybod i bob aelod perthnasol o'r staff yn y practis am y canlyniadauGweithredir i sicrhau na fu achosion tebyg, ac os bu rhai, y cymerir y camau gweithredu angenrheidiol er diogelwch y claf a rhoi gwybod i AGIC am ganlyniadau'r camau gweithredu hyn	<p>Safonau lechyd a Gofal 2015, Safon 3.5 a 5.1</p>	<p>Pwynt 1. Rhoddwyd gwybod i'r clinigydd am y digwyddiadau ac mae'n eu cofnodi er mwyn iddynt gael eu trafod yn y cyfarfod Dadansoddiad o Ddigwyddiad Arwyddocaol, a gynhelir yn ystod y pythefnos nesaf. Rhennir y canlyniad â phob aelod perthnasol o'r staff.</p> <p>Pwynt 2. Bydd y practis yn adolygu nodiadau clinigol pob claf dros 60 oed ag achos newydd o anemia diffyg haearn yn ystod y chwe mis diwethaf er mwyn sicrhau bod y</p>	<p>Dr Andy Raynsford, Meddyg Teulu a Phartner, a oedd yn bresennol yn ystod yr arolygiad.</p>	<p>4 Gorffennaf 2019</p>

Yr hyn sydd angen ei wella ar unwaith	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<ul style="list-style-type: none"> Cyflwynir system o archwiliadau ansawdd, sy'n ymwneud â chofnodion clinigol yn yr achos hwn, er mwyn sicrhau ansawdd y cofnodion hyn. 		<p>camau gweithredu priodol wedi cael eu cymryd.</p> <p>Pwynt 3. Bydd y practis yn datblygu system o archwiliadau ansawdd rheolaidd er mwyn sicrhau ansawdd y cofnodion clinigol. Yn y senario penodol hwn, bydd y practis yn chwilio am gleifion dros 60 oed ag achos newydd o ddiffyg haearn bob deufis, gan sicrhau bod y camau rheoli cywir wedi cael eu cymryd drwy adolygu'r cofnodion clinigol. Trafodir nodiadau achosion â'r Cymdeithion Meddygol bob wythnos yn achos y Cydymaith Meddygol profiadol a phob mis yn achos y Cydymaith Meddygol mwyaf profiadol. Bydd hyn yn cynnwys trafod achosion sydd wedi bod yn heriol iddynt a nodiadau a ddewisir ar hap. Bydd Ymarferwyr Cyffredinol yn cael adolygiadau cymheiriaid rheolaidd gan bartneriaid eraill yn y Practis.</p>		

Mae'n rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (llythrennau bras):	Dr Andy Raynsford
Teitl swydd:	Ymarferydd Cyffredinol
Dyddiad:	27 Mehefin 2019

Atodiad C – Cynllun gwella

Gwasanaeth: Practis Meddygol Arwystli

Dyddiad arolygu: 18/6/19

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n nodi'r camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ansawdd profiad y claf				
Rhaid i'r practis wneud y canlynol: <ul style="list-style-type: none"> Cael gafael ar ragor o daflenni hybu iechyd a phosteri sy'n ymwneud â byw'n iach Arddangos gwybodaeth am broses Gweithio i Wella GIG Cymru. 	1.1 Hybu, diogelu a gwella iechyd	Siarad â swyddogion Iechyd y Cyhoedd er mwyn cael gafael ar daflenni priodol Siarad â Thîm Pryderon y Bwrdd Iechyd mewn perthynas â'r poster swyddogol	Claire Tanner Claire Tanner	Parhaus – i'w gwblhau erbyn diwedd mis Medi Erbyn diwedd mis Awst
Rhaid i'r practis wneud y canlynol: <ul style="list-style-type: none"> Ystyried sut i roi adborth i gleifion am unrhyw gamau gweithredu neu ganlyniadau sy'n deillio o'u hawgrymiadau 	6.3 Gwrando a Dysgu o Adborth	Adolygu awgrymiadau a chyhoeddi gwybodaeth i gleifion yn rheolaidd fel y bo'n briodol	Claire Tanner Claire Tanner	Proses barhaus i ddechrau ar unwaith 31 Rhagfyr 2019

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<ul style="list-style-type: none"> Cwblhau arolygon rheolaidd o'r cleifion, er mwyn cael eu barn ar y practis, yn annibynnol ar unrhyw arolygon a gynhelir gan y Bwrdd Iechyd. 		Cynnal arolwg cleifion ar ôl clinig ffliw 2019		
Darparu gofal diogel ac effeithiol				
Mae'n rhaid i'r practis sicrhau bod yr holl staff yn cael hyfforddiant diogelu ar lefel sy'n gymwys i'w rolau o fewn amserlenni priodol a bod proses gadarn ar waith ar gyfer monitro amserlenni a chwblhau'r hyfforddiant.	2.7 Diogelu plant a diogelu oedolion sy'n agored i niwed	Mae'r staff wrthi'n cwblhau hyfforddiant diogelu ar-lein a byddant yn sicrhau y caiff ei gwblhau'n rheolaidd o fewn amserlenni cydnabyddedig.	Claire Tanner	Proses eisoes ar waith a chaiff ei chwblhau erbyn 30 Medi 2019
Mae'n rhaid i'r practis sicrhau y caiff diweddariadau, arfer gorau a chanllawiau newydd eu rhannu bob amser â'r staff mewn ffordd ffurfiol ac amserol ac y caiff tystiolaeth ei chofnodi i ddangos bod y staff wedi eu darllen a'u deall.	3.1 Gofal Diogel a Chlinigol Effeithiol	Bydd y practis yn sefydlu proses ffurfiol ac yn gofyn i'r staff gadarnhau eu bod wedi darllen y deunydd	Margot Jones	Proses eisoes ar waith a chaiff ei monitro'n rheolaidd er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth
Mae'n rhaid i'r practis sicrhau bod proses unedig ar gyfer trafod Dadansoddiadau o Ddigwyddiadau Arwyddocaol i bob aelod clinigol ac anghlinigol o'r staff.	3.3 Gwella Ansawdd, Ymchwil ac Arloesi	Sicrhau y cynhelir cyfarfodydd dadansoddiadau o ddigwyddiadau arwyddocaol yn rheolaidd a bod pob	Margot Jones	Parhaus a thrafodir y mater yng nghyfarfod clinigol mis Medi

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		aelod priodol o'r staff yn ymwybodol ohonynt.		
<p>Rhaid i'r practis sicrhau'r canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> Mae cofnodion cleifion yn cofnodi tystiolaeth o drafodaethau â chleifion am risgiau a manteision meddyginiaethau Cynhelir amrywiaeth o archwiliadau o gofnodion clinigol gan y practis Rhoddir system glanhau data ar waith mewn cysylltiad â chofnodion cleifion. 	3.5 Cadw cofnodion	<p>Trafod y mater yn ystod y cyfarfod clinigol a'i atgyfnerthu</p> <p>Trafod y mater ystod y cyfarfod clinigol a chytuno ar gynllun</p> <p>Ceisio cyngor gan Wasanaeth Gwybodeg GIG Cymru</p>	<p>Dr Andy Raynsford</p> <p>Dr Andy Raynsford</p> <p>Margot Jones</p>	<p>Medi 2019</p> <p>Medi 2019</p> <p>Medi 2019</p>
Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth				
<p>Rhaid i'r practis sicrhau'r canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> Cynhelir cyfarfodydd staff rheolaidd Dylid dogfennu cofnodion cyfarfodydd a'u dosbarthu i bob aelod o'r staff, a dylai'r staff gadarnhau eu bod yn deall y cofnodion 	Llywodraethu, Arweinyddiaeth ac Atebolrwydd	<p>Parhau i gynnal cyfarfodydd a chyhoeddi'r dyddiadau</p> <p>Bydd pob cyfarfod yn parhau i gael ei ddogfennu gyda staff yn cadarnhau drwy neges cadarnhau darllen bod y cofnodion yn gywir a'u bod yn eu deall.</p>	<p>Claire Tanner</p> <p>Claire Tanner</p>	<p>Parhaus.</p> <p>Dyddiadau i'w cyhoeddi bob chwarter</p> <p>Eisoes ar waith</p> <p>Proses eisoes ar waith ond caiff ei</p>

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<ul style="list-style-type: none"> Cynhelir cyfarfodydd staff clinigol er mwyn rhannu dysgu a lledaenu gwybodaeth glinigol briodol. 		Cynhelir cyfarfodydd clinigol bob mis a byddant yn parhau, a cheir rhywfaint o drafodaeth am yr aelodaeth	Dr Andy Raynsford	thrafod yng nghyfarfod mis Medi 2019
<p>Rhaid i'r practis wneud y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> Cynnal cofnod o hyfforddiant y staff a sicrhau bod y staff yn mynychu hyfforddiant o fewn amserlenni priodol Cynnal cofnod o drefniadau sefydlu staff yn y practis. Sicrhau bod pob gwiriad cyn cyflogi yn cael ei wneud cyn penodi staff newydd. 	7.1 Y Gweithlu	<p>Matrics parhaus i'w gwblhau</p> <p>Parhau i gynnal trefniadau sefydlu staff ar gyfer aelodau newydd o'r staff</p> <p>Parhau i geisio geirdaon a gwybodaeth briodol arall cyn cyflogi</p>	<p>Claire Tanner/Jo Jones</p> <p>Claire Tanner/Jo Jones/Margot Jones</p> <p>Margot Jones</p>	<p>30 Medi 2019</p> <p>Ar waith</p> <p>Ar waith</p>

Mae'n rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (llythrennau bras): Margot Jones

Teitl swydd:

Dyddiad:

Rheolwr y Practis

6 Awst 2019